

Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Cyllid sy'n dwyn y teitl "Cost gofalu am boblogaeth sy'n heneiddio"

Cyflwyniad

Mae agwedd cymdeithas tuag at ei phobl hŷn yn adlewyrchu ei gwerthoedd. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i werthfawrogi a chefnogi'r bobl hŷn yng Nghymru yn yr un modd yr hoffem weld ein teuluoedd yn cael eu trin ac yn wir, ni ein hunain yn hwyrach mewn bywyd.

Yn hyn o beth, mae gofal cymdeithasol yn hollbwysig, i gefnogi pobl i fyw eu bywydau mor annibynnol a llawn â phosibl, waeth beth fo'u hamgylchiadau unigol. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried bod mwy o bobl yn byw'n hwy. Fodd bynnag, ni ddylid ystyried diwallu anghenion gofal a chymorth cymdeithasol ar wahân i bopeth arall. Dylid darparu gofal cymdeithasol fel rhan o system ddi-dor sy'n cysylltu'r gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant. O ganlyniad, dylid rhoi pobl wrth wraidd y gofal sydd ei angen arnynt, boed yn ofal iechyd neu'n ofal cymdeithasol, wedi'i drefnu a'i ddarparu yn unol â'u hanghenion.

Fel yr amlygwyd i'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad, mae Llywodraeth Cymru yn ailstrwythuro'r modd y darperir gofal a chymorth er mwyn i'r weledigaeth ddod yn fwy o realiti. Gwneir hyn drwy ystod o weithgareddau, gan gynnwys adolygu fframwaith deddfwriaethol gofal cymdeithasol; mwy o bwyslais ar ddulliau ataliol i gefnogi pobl i fyw yn eu cartrefi am gyfnod hwy heb yr angen am gymorth dwys; newid yn y modelau gofal cymdeithasol a ddarperir; cefnogi a datblygu gweithlu cyflogedig i wella canlyniadau i bobl a; thrwy gefnogi gofalmwyr wrth iddynt barhau i ofalu am eu hanwyliaid. Manylir ar ein rhaglen i drawsnewid iechyd a gofal cymdeithasol yn *Cymru Iachach*.

Hoffwn ddiolch i aelodau'r Pwyllgor Cyllid am eu hadroddiad. Mae'r argymhellion yn tanlinellu'r heriau sydd o'n blaenau. Mae'n dda nodi bod y camau a gymerwyd neu sydd ar y gweill, yn barod yn mynd i'r afael â'r materion dan sylw er budd pobl hŷn Cymru. Felly isod, rwy'n nodi fy ymateb i argymhellion unigol y Pwyllgor.

Ymateb manwl i Argymhellion y Pwyllgor

Argymhelliad 1: Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i ystyried gwaith ymchwil wedi'i thargedu'n well gan adeiladu ar yr astudiaeth iechyd a gweithrediad gwybyddol ym mhrifysgolion Bangor ac Abertawe. Byddai hyn yn sicrhau bod y data mwyaf cywir ar gael ar gyfer amcangyfrif cyfanswm y galw am wasanaethau gofal cymdeithasol i bobl hŷn.

Ymateb: Derbyn

Mae gennym eisoes ystod o ffynonellau data yng Nghymru sy'n caniatáu tracio unigolion dros amser mewn dull tebyg i astudiaeth hydredol. Gellir defnyddio ffynonellau fel Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddiennw (*Secure Anonymised Information Linkage - SAIL*) i fonitro'r modd y mae unigolion yn rhyngweithio â'r gwasanaethau dros amser, tra bod *Doeth am Iechyd Cymru* yn caniatáu gofyn cyfres o gwestiynau i'r un cyfranogwyr dros gyfnod o amser.

Ariennir *Longitudinal Study of Ageing* yn Lloegr ac astudiaeth gyfatebol yn yr Alban o ystod o ffynonellau, er enghraifft y byd academiaidd, y Llywodraeth a'r National Institute of Ageing (sy'n darparu hanner yr ariannu yn Lloegr). Ar hyn o bryd mae swyddogion yn archwilio beth fyddai astudiaeth o'r fath yn ei chyflawni yng Nghymru nad yw ar gael drwy'r ffynonellau presennol.

Yn ogystal, drwy *Cymru Iachach* rydym wedi ymrwymo i gynnal dadansoddiad o wariant iechyd a gofal cymdeithasol, a'r rhyngweithio rhyngddynt. Disgwylir comisiynu hyn cyn diwedd y flwyddyn, a bydd adroddiad yn ymddangos yn ddiweddarach y flwyddyn nesaf.

Goblygiadau Ariannol: Dim. Telir unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Argymhelliad 2: Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad o asesiadau gofalwyr i werthuso a yw effaith arfaethedig y Ddeddf i gryfhau'r gefnogaeth i ofalwyr yn cael ei chyflawni. Dylai'r Cynulliad gael adroddiad am ganlyniadau'r adolygiad.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymrwymo i werthuso Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, i archwilio rhoi'r Ddeddf ar waith a'r effaith ar y sawl sy'n derbyn gofal a chymorth, gan gynnwys gofalwyr di-dâl. Bydd y gwerthusiad a ddechreuodd ym mis Tachwedd yn para am dair blynedd. Bydd yn cynnwys gofalwyr yn uniongyrchol.

Yn benodol, bydd y gwerthusiad yn ystyried i ba raddau y mae'r Ddeddf wedi effeithio'n uniongyrchol ar weithwyr gofal di-dâl a beth sydd wedi newid iddynt ers ei rhoi ar waith, yn ogystal ag ystyried unrhyw welliannau i gryfhau llais a rheolaeth gofalwyr.

Wrth gwrs, mae'n sylfaenol bwysig bod gofalwyr di-dâl yn ymwybodol o'u hawliau o dan y Ddeddf, a'u deall. Mae hyn yn arbennig o bwysig er mwyn iddynt wybod pryd i wneud cais am asesiad gofalwr, a chael mynediad ato. Y flwyddyn nesaf, bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgyrch gyhoeddusrwydd fawr i godi ymwybyddiaeth o'r Ddeddf. Elfen benodol o hyn fydd targedu'r gofalwyr di-dâl er mwyn cynyddu eu gwybodaeth am eu hawliau a'u hannog nhw, a'r bobl nad ydynt eto'n cydnabod eu bod yn ofalwyr, i geisio gwybodaeth, cyngor a chymorth. Mae hyn yn cynnwys asesiad gofalwr pan fydd hynny'n briodol i'r gofalwyr unigol.

Yn ogystal, bydd y cymorth i'r rheiny sy'n gwneud cais am asesiadau gofalwyr, a'r gweithwyr cymdeithasol fydd yn eu gweithredu, yn cael ei atgyfnerthu drwy ddatblygu pecyn cymorth asesu penodol ar gyfer gofalwyr di-dâl, a fydd yn cynnwys enghreifftiau o arferion gorau. Gofynnodd Gofal Cymdeithasol Cymru i'r Sefydliad Gofal Cyhoeddus ddatblygu cyfres o ddeunyddiau ar gyfer hyn. Cynhelir ymgynghoriad ynglŷn â drafft o'r pecyn cymorth, i gynnwys rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys Grŵp Cynghori'r Gweinidog i Ofalwyr, Addysg a Gwella Iechyd Cymru, ymarferwyr gofal cymdeithasol, y gofalwyr di-dâl eu hunain a'u grwpiau cymorth, yn

ogystal ag awdurdodau lleol ac eraill. Y nod yw lansio'r pecyn cymorth yn gynnar yn 2019.

Goblygiadau Ariannol: Dim. Telir unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Argymhelliad 3: Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro'r cyllid a ddarperir i awdurdodau lleol i sicrhau eu bod yn gallu parhau i gyflawni eu rhwymedigaethau yng ngoleuni'r cynnydd yn y trothwy cyfalaf.

Ymateb: Derbyn

Roedd cynyddu'r trothwy cyfalaf o £24,000 i £50,000 mewn perthynas ag awdurdodau lleol yn codi tâl am ofal preswyl yn un o'r chwe phrif ymrwymiad yn *Symud Cymru Ymlaen*. Nod hyn oedd caniatáu i'r bobl mewn gofal preswyl gadw mwy o'u cyfalaf i'w wario fel y dymunant, heb orfod gwario'u holl gyfalaf i dalu am eu gofal.

O ystyried y pwys a roddwn ar hyn, mae swyddogion wedi monitro effaith ariannol y polisi hwn ar yr awdurdodau lleol ers cychwyn ei weithredu ym mis Ebrill 2017, pan gynyddwyd y trothwy o £24,000 i £30,000. Parhaodd y gwaith monitro yn ystod 2018-19 a chynyddwyd y trothwy cyfalaf i £40,000 o fis Ebrill eleni, ac mae'n parhau dros y blynyddoedd i ddod wrth i'r trothwy gynyddu i £50,000.

Mae hyn er mwyn sicrhau bod y canlyniadau ariannol a ysgwyddir gan yr awdurdodau lleol o ganlyniad i'r polisi yn cael eu hariannu'n briodol er mwyn cyflawni'r manteision. O ganlyniad, rydym yn parhau i gynnal briff gwylio ar y costau hyn i wneud yn siŵr bod yr awdurdodau'n cael eu digolledu'n ddigonol am yr ychwanegiadau a wnaethom i'r Grant Cynnal Refeniw.

Goblygiadau Ariannol: Dim goblygiadau ychwanegol. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi ychwanegu £4.5 miliwn y flwyddyn at y Grant Cynnal Refeniw ers 2017-18 tuag at amcangyfrif cost cynyddu'r trothwy cyfalaf i £30,000, gyda £7 miliwn ychwanegol y flwyddyn o 2018-19 i gwmpasu amcangyfrif cost cynyddu'r trothwy i £40,000. Pan gynyddir y trothwy i £50,000, bydd yr ychwanegiadau i'r Grant Cynnal Refeniw yn cynyddu er mwyn talu'r gost amcangyfrifedig ychwanegol sy'n gysylltiedig â hyn.

Argymhelliad 4: Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi blaenoriaeth i gwblhau'r gwaith o ddatblygu pecyn cymorth ar gyfer pennu ffioedd gyda phartneriaid ac yn gwneud rhagor o waith i sicrhau bod y cyhoedd yn deall ffioedd a'r tâl a godir am ofal.

Ymateb: Derbyn

Yn ystod yr haf, cwblhawyd y gwaith o ddatblygu pecyn cymorth i osod ffioedd pan gyhoeddwyd *Let's Agree to Agree: a toolkit for commissioners and providers to agree the cost of residential and nursing care for older people in Wales* ym mis Medi. Dosbarthwyd y pecyn cymorth yn eang i sicrhau bod yr holl gyrff comisiynu iechyd a gofal cymdeithasol, a darparwyr gofal preswyl, yn cael mynediad ato a'i ddefnyddio yn eu prosesau gosod ffioedd ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019-20.

Datblygwyd y pecyn cymorth i helpu comisiynwyr a darparwyr i sefydlu deialog agored a thryloyw mewn perthynas â ffioedd cartrefi preswyl, a darparu methodoleg awgrymedig er mwyn cyflawni hyn. Fe'i cyhoeddwyd fel canllaw arferion da gan Grŵp Llywio Cartrefi Gofal Llywodraeth Cymru, a gellir cael mynediad ato ar wefan y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol:

<https://www.wlga.wales/SharedFiles/Download.aspx?pageid=62&mid=665&fileid=1806>

Bydd y Bwrdd yn sicrhau bod y pecyn cymorth yn parhau'n gyfredol.

Mewn perthynas ag addysgu'r cyhoedd ynglŷn â chodi tâl am ofal cymdeithasol, mae Grŵp y Gweinidogion ar Dalu am Ofal Cymdeithasol yn bwriadu codi proffil gofal cymdeithasol yn gyffredinol, a darparu mwy o wybodaeth i'r cyhoedd am y fframwaith codi tâl. Disgwylir i'r ymrwymiad ddechrau y flwyddyn nesaf.

Goblygiadau Ariannol: Dim. Ysgwyddir unrhyw gostau ychwanegol gan gyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 5: Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi blaenoriaeth i ddatblygu strategaeth ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol ac yn cymryd camau priodol i godi statws gweithwyr gofal cymdeithasol, a rhoi cymorth iddynt, fel bod y rôl yn yrfa ddeniadol gyda chyflog priodol.

Ymateb: Derbynn

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod gweithlu gofal cymdeithasol cynaliadwy yn gallu ymateb i anghenion gofal a chymorth nawr ac yn y dyfodol. I sicrhau bod yr ystod o fesurau eisoes ar waith, er enghraifft rheoliadau i wella telerau ac amodau'r gweithlu drwy leihau'r defnydd o gytundebau dim oriau a'r angen am amlinelliad o amser gofal a theithio.

Yn ogystal, rydym wedi agor y gofrestr gweithlu i weithwyr gofal cartref ar sail wirfoddol o fis Ebrill 2018, cyn y cofrestru gorfodol o 2020 ymlaen. Yn yr un modd, byddwn yn agor cofrestr ar sail wirfoddol i weithwyr gofal preswyl i oedolion yn 2020, cyn y cofrestru gorfodol o 2022 ymlaen. Mae hyn yn adlewyrchu ein hymrwymiad i broffesiynoli'r gweithlu i helpu i gryfhau proffil a statws gofal cymdeithasol. Cefnogir hyn gan gyfres o gymwysterau gofal iechyd a chymdeithasol newydd a gaiff eu cyflwyno o fis Medi 2019, gan ddarparu llwybrau gyrfaf clir.

Mae *Cymru Iachach*, a gyhoeddwyd yn ystod yr haf, yn gosod cyfeiriad clir ar gyfer gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol sy'n fwy di-dor, drwy gydgyllunio rhwng y Byrddau Cynllunio Rhanbarthol, gyda chyllidebau cyfun a chytundebau comisiynu ar y cyd. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i archwilio sut y gall Llywodraeth Cymru helpu i gefnogi'r Byrddau Cynllunio Rhanbarthol i gyflawni'r rôl estynedig hon.

Yn ogystal, mae Gofal Cymdeithasol Cymru ac Addysg a Gwellu Iechyd Cymru yn cydweithio i ddatblygu strategaeth gweithlu hirdymor i ategu'r gwaith, a sicrhau ein bod yn barod i ddatblygu a chyflwyno'r dulliau newydd gorau o weithio ar draws Cymru. Bydd y strategaeth hon yn cael ei symud ymlaen mewn partneriaeth â'r GIG,

llywodraeth leol, y sectorau gwirfoddol ac annibynnol, ynghyd â rheoleiddwyr, cyrff proffesiynol, a darparwyr addysg.

Goblygiadau Ariannol: Dim. Telir unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Argymhelliad 6: Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru, fel mater o frys, barhau i archwilio opsiynau eraill er mwyn sicrhau bod unrhyw ddiwygiadau posibl a weithredir yn y dyfodol i'r dulliau cyllido yn ddigonol i gynnal system gofal cymdeithasol cynaliadwy sy'n addas i ateb y galw.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi blaenoriaethu gofal cymdeithasol yn ein strategaeth genedlaethol, *Ffyniant i Bawb*, sy'n cynnwys ymrwymiad i ddatblygu modelau ariannu arloesol i sicrhau bod yr adnoddau ar gael i ddiwallu anghenion gofal cymdeithasol y dyfodol.

I gyd-fynd â hyn, mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid wedi ymrwymo i ymchwilio i opsiynau trethi newydd i Gymru, gan gynnwys yr opsiwn o gyflwyno ardoll gofal cymdeithasol i godi cyllid ychwanegol ar gyfer gofal cymdeithasol.

Seiliwyd ystyriaethau Ysgrifennydd y Cabinet ar gynnig a wnaed gan yr Athro Gerald Holtham, a awgrymodd sefydlu cronfa gofal cymdeithasol o'r enillion ar ardoll incwm pobl.

Mae sicrhau cyllid cynaliadwy yn mynd law yn llaw â sefydlu modelau effeithiol o ofal, sy'n diwallu anghenion gofal iechyd a chymdeithasol y boblogaeth. O ganlyniad, mae'r gwaith o ddatblygu model cyllido yn mynd rhagddo yng nghyd-destun cyflawni *Cymru Iachach*, sy'n cyfleu'r weledigaeth am system gofal iechyd a chymdeithasol ddi-dor. Mae'r cynllun hirdymor hwn yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i gynnal dadansoddiad o wariant gofal iechyd a chymdeithasol yn y dyfodol er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r gydberthynas rhyngddynt ac i fod yn sail i'r gofynion cyllido er mwyn darparu gofal cymdeithasol yn y dyfodol. Bydd gwaith ehangach *Cymru Iachach* hefyd yn hysbysu'r datblygiad o fodolau newydd o ofal a fydd, yn eu tro, yn llywio natur y cynnig am ofal cymdeithasol yn y dyfodol i'r rhai hynny sy'n talu ardoll a beth fyddai cost cyflawni hyn.

Mae'r gwaith ar fodel cyllido gofal cymdeithasol ar gyfer y dyfodol yn gymhleth ac yn torri ar draws ffiniau portffolio traddodiadol, ond mae pwysigrwydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn Grŵp y Gweinidogion ar Dalu am Ofal Cymdeithasol yr wyf yn ei gadeirio. Mae'n cynnwys cynrychiolaeth o Weinidogion ar draws y meysydd iechyd, gofal cymdeithasol, llywodraeth leol, tai a chyllid. Mae'r pum ffrwd waith a sefydlwyd ganddo yn ystyried sut y gellid codi mwy o arian tuag at ofal cymdeithasol drwy ardoll; beth fyddai blaenoriaethau'r cyllid; sut i ddosbarthu'r cyllid; y rhyngweithio rhwng cyflwyno ardoll a chamau gweithredu a meysydd Llywodraeth y DU (er enghraifft budd-daliadau lles) a; ffrwd waith cyfathrebu i hwyluso ymgysylltu â'r sector a'r cyhoedd.

Mae'n ddyddiau cynnar o hyd o ran gwaith Grŵp y Gweinidogion ar Dalu am Ofal Cymdeithasol. Fodd bynnag, bydd yn bwrw ymlaen â'r gwaith yn ddi-oed dros y

flwyddyn nesaf er mwyn gallu ffurfio barn ar sail gwybodaeth ynghylch a yw cyflwyno ardoll gofal cymdeithasol yn hyfyw ac o fudd i'r cyhoedd fel y rhagwelir ar hyn o bryd.

Goblygiadau Ariannol: Dim. Telir unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Argymhelliad 7: Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â'r cyhoedd ynglŷn â chyllido gwasanaethau gofal cymdeithasol yn y dyfodol ond, yn fwy arwyddocaol, mae'n rhaid iddi drafod yr hyn y byddai'r cyhoedd yn disgwyl ei gael yn gyfnewid am wneud cyfraniadau ychwanegol.

Ymateb: Derbyn

Mae Grŵp y Gweinidogion ar Dalu am Ofal Cymdeithasol y cyfeirir ato uchod yn cydnabod mai dim ond drwy ymgysylltu sylweddol â'r cyhoedd a'r sector gofal cymdeithasol ei hun y gellid gwneud unrhyw benderfyniadau am newid i fodel cyllido gofal cymdeithasol sy'n cynnwys cyflwyno ardoll.

Fel y nodwyd uchod, un o ffrydiau gwaith Grŵp y Gweinidogion ar Dalu am Ofal Cymdeithasol yw cyfathrebu. Elfen allweddol o hyn fydd ymgysylltu â'r cyhoedd i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r system bresennol o gyllido gofal cymdeithasol; yn ymwybodol o'r problemau a'r heriau a all godi; yn ymwybodol o bwysigrwydd gofal cymdeithasol a; sut y gallai hyn newid yn sgil cyflwyno ardoll a'r hyn y byddant yn ei dderbyn drwy dalu amdano.

Mae'r cynigion ar gyfer rhan gyntaf yr agenda (h.y. codi proffil gofal cymdeithasol) wrthi'n cael eu llunio ar hyn o bryd gyda'r bwriad o ddechrau eleni.

Goblygiadau Ariannol: Dim. Telir unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Argymhelliad 8: Mae'r Pwyllgor yn argymhell, cyn penderfynu cyflwyno ardoll i godi arian ychwanegol ar gyfer gofal cymdeithasol gan boblogaeth Cymru, y bydd angen i Lywodraeth Cymru allu cyfiawnhau sut y bydd unrhyw arian a godir yn cael ei ddefnyddio a gallu dangos y bydd yn gwneud gwahaniaeth. Dylai hyn gynnwys esbonio pa lefel o ofal y gallai'r cyhoedd ei disgwyl yn gyfnewid am eu cyfraniadau gan ei fod yn annhebygol y byddent yn cefnogi cynigion i dalu mwy os yw lefel y gofal yr un peth ag y mae ar hyn o bryd.

Ymateb: Derbyn

Rhan hanfodol o waith Grŵp y Gweinidogion ar Dalu am Ofal Cymdeithasol yw nodi beth fyddai'r blaenoriaethau o safbwynt unrhyw gyllid ychwanegol a godir ar gyfer gofal cymdeithasol drwy gyflwyno ardoll a sut, felly, y byddai'r model presennol o ddarpariaeth gofal cymdeithasol yn newid yn y dyfodol, a'r manteision ddaw yn sgil y newid hwnnw.

Yn ogystal â dadansoddi'r gwariant fel y cyfeiriwyd ato uchod yn yr ymateb i Argymhelliad 6, fel rhan o gwmpas cychwynnol y gwaith, rydym wedi comisiynu llywodraeth leol, drwy Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, i nodi'r blaenoriaethau ar gyfer gwariant ar ofal cymdeithasol dros y 15 mlynedd nesaf. Mae hyn i ystyried y blaenoriaethau ar draws y ddarpariaeth gofal

cymdeithasol ac i gynnig barn ynglŷn â lle y dylai'r adnoddau a godwyd drwy'r ardoll gael eu defnyddio orau. Mae hefyd er mwyn lleisio barn am beth ddylai'r "addewid" gofal cymdeithasol fod i'r unigolyn sy'n talu'r ardoll yn nhermau'r hyn y maent yn ei dderbyn.

O ganlyniad, mae'n rhaid i'r gweithgaredd cyfathrebu y cyfeiriwyd ato yn yr ymateb i Argymhelliad 7 gynnwys eglurhad allweddol i'r cyhoedd ynglŷn â pham mae angen yr ardoll os mai'r penderfyniad fydd ei chyflwyno, sut bydd yr arian a godir yn cael ei ddefnyddio, y manteision ehangach a ddaw yn ei sgil a'r manteision i'r unigolyn.

Goblygiadau Ariannol: Dim. Telir unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Argymhelliad 9: Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn archwilio sut y gallai'r cynnig i sefydlu system iechyd a gofal di-dor a argymhellir yn yr adolygiad Seneddol gyfuno cronfa ar gyfer gofal cymdeithasol gyda'r GIG sydd am ddim ar y pwynt cysylltu.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Mae'r model o ofal iechyd a chymdeithasol di-dor a ragwelir yn seiliedig ar ein hegwyddorion gofal iechyd darbodus, ac yn gonglfaen i *Cymru lachach*. Bydd pobl yn cael mynediad at ystod o wasanaethau di-dor yn seiliedig ar eu hanghenion unigryw a'r hyn sy'n bwysig iddynt. Mae'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, a sefydlwyd drwy Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), yn chwarae rhan allweddol drwy gyflwyno cynigion am fodolau gofal iechyd a chymdeithasol di-dor.

Er ein bod wedi ymrwymo i greu'r rhain, nid yw hyn yr un peth â sefydlu gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol sy'n rhad ac am ddim ar y pwynt cyswllt, a fyddai'n golygu newid sylfaenol yn y modd yr ariennir gofal cymdeithasol i gyflawni'r amcan hwn.

Fel rhan o'i ystyriaethau, bydd Grŵp y Gweinidogion ar Dalu am Ofal Cymdeithasol yn ystyried model gofal cymdeithasol ar gyfer y dyfodol a fyddai'n cael ei hwyluso drwy gyflwyno ardoll gofal cymdeithasol ac, o ganlyniad, yn ei ariannu. Bydd hyn yn cynnwys a yw'n ymarferol lleihau costau gofal cymdeithasol, eu dileu mewn rhai amgylchiadau, neu'u dileu'n gyfan gwbl mewn rhai sefyllfaoedd. Oherwydd hyn, mae p'un a fyddai gofal cymdeithasol yn gallu bod am ddim, yn rhywbeth i'w ystyried fel rhan o'r gwaith hwnnw dros y flwyddyn nesaf.

Goblygiadau Ariannol: Byddai cyflwyno ardoll gofal cymdeithasol yn arwain at ddau oblygiad ariannol. Yn gyntaf, y costau gweithredu sy'n gysylltiedig â'i sefydlu, a'i gasglu a dosbarthu'r arian. Yn ail, yr arian a godir a'r gallu i'w ddefnyddio fel cyllid ychwanegol i gyflawni blaenoriaethau gofal cymdeithasol. Bydd y ddau'n cael eu hystyried a'u meintioli fel rhan o waith Grŵp y Gweinidogion ar Dalu am Ofal Cymdeithasol.

Huw Irranca-Davies AC

Y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol